**Pwyllgor ar Faterion Ewropeaidd ac Allanol**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 13 Chwefror 2002 |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3 |
| Amser: | 9.30am |

**Teitl:Rhaglen Waith 2002 y Comisiwn Ewropeaidd**

**Pwrpas:**

1. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r Rhaglen Waith Flynyddol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2002 a chytuno y dylid ei dosbarthu i bob pwyllgor pwnc.

**Crynodeb**

2. Yn wreiddiol roedd y Comisiwn wedi nodi chwe blaenoriaeth ar gyfer 2002 yn ei Strategaeth Polisi Blynyddol. Yn dilyn digwyddiadau 11 Medi, cadarnhawyd y chwe blaenoriaeth ac ychwanegwyd 'diogelwch' i greu'r rhestr ganlynol o flaenoriaethau gwleidyddol ar gyfer 2002:

- Diogelwch
- Yr Ewro
- Datblygu Cynaliadwy
- Llywodraethu Ewropeaidd
- Ehangu
- Y Canoldir – meithrin cysylltiadau agosach gyda'i gymdogion uniongyrchol
- Cydlynu gwaith datblygu – cryfhau ei gyfraniad i'r nodau rhyngwladol ym maes datblygu y cytunwyd arnynt

1. Mae copi o'r rhaglen waith yn Atodiad 1. Mae'r camau allweddol wedi'u crynhoi yn Atodiad 2, er hwylustod. Hefyd, mae rhaglen ddeddfwriaethol fanwl ynghlwm fel atodiad technegol <u>cyfyngedig</u> (Atodiad 3). Nid yw'r Comisiwn wedi cyhoeddi'r rhaglen ddeddfwriaethol fel atodiad swyddogol i'r rhaglen waith. Lluniwyd y ddogfen yn Atodiad 3 yn anffurfiol gan y Comisiwn: bydd y rhaglen ddeddfwriaethol chwarterol swyddogol yn cael ei chyhoeddi maes o law. Mae'r rhaglen ddeddfwriaethol yn gofyn am archwiliad mwy manwl, a rhoddir ystyriaeth i hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol; byddwn yn ymgynghori â'n sefydliadau partner yn hyn o beth.

**Cydymffurfio**

4. Mae Rheol Sefydlog 15, ac yn enwedig adrannau 15.2 a 15.3, yn rhoi'r swyddogaeth i'r Pwyllgor o fonitro 'effaith gyffredinol a chanlyniadau'r polisïau a ddilynir gan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru' a thynnu 'sylw pwyllgorau pwnc perthnasol at faterion penodol'.

**Gweithredu**

5. Efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried p'un a ddylid dosbarthu'r papur a'r atodiadau i Bwyllgorau eraill i'w hystyried o fewn eu meysydd polisi eu hunain. Caiff y rhaglen waith hefyd ei dosbarthu o fewn is-adrannau polisi'r Cynulliad ynghyd â'r rhaglen chwarterol pan gaiff ei chyhoeddi.

**Ystyried**

6. Mae telerau a natur Rhaglen Waith y Comisiwn wedi newid. Arferai gael ei chyflwyno ar ddechrau pob blwyddyn ynghyd â chatalog disgrifiadol hir o gamau deddfwriaethol a chamau polisi eraill. Ni nodwyd y blaenoriaethau gwleidyddol bob amser.

7. Nododd y Comisiwn ei flaenoriaethau gwleidyddol ar gyfer 2002 yn ei Strategaeth Polisi Blynyddol a fabwysiadwyd ym mis Chwefror 2001. Mae'r Rhaglen Waith hon yn Atodiad 1 yn canolbwyntio ar y camau gwleidyddol mawr y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hynny. Felly, mae rhaglen waith newydd y Comisiwn yn:

- Asesu'r cynnydd a fu yn ystod y flwyddyn gyfredol
- Nodi'r cyd-destun gwleidyddol ac economaidd ar gyfer y flwyddyn nesaf
- Egluro'r blaenoriaethau gwleidyddol ar gyfer y flwyddyn nesaf ar sail y Strategaeth Polisi Blynyddol
- Tanlinellu'r prif gamau gwleidyddol ar gyfer 2002, yn enwedig y rheini sy'n gweithredu ar flaenoriaethau gwleidyddol y flwyddyn honno. Nid yw, fodd bynnag, yn ceisio rhoi darlun cynhwysfawr o weithgarwch y Comisiwn.

8. Mae'r tablau canlynol yn nodi pa mor berthnasol yw pob blaenoriaeth i'r

Cynulliad Cenedlaethol.

| **Diogelwch** | |
|---|---|
| Disgrifiad | Brwydro yn erbyn terfysgaeth a throseddu, a hyrwyddo diogelwch dinasyddion Ewrop drwy weithredu o fewn yr Undeb yn ogystal ag ar lefel ryngwladol. |
| Perthnasedd i'r Cynulliad Cenedlaethol | Dim rhan uniongyrchol gan fod hwn yn fater nas datganolwyd. |

**Yr Ewro**

| | |
|---|---|
| Disgrifiad | Sicrhau bod yr Ewro yn cael ei lansio'n llwyddiannus a chymryd y camau diwygio strwythurol cysylltiedig er mwyn atgyfnerthu undeb economaidd ac ariannol a'r farchnad sengl. |
| Perthnasedd i'r Cynulliad Cenedlaethol | Nid yw ymuno â'r Undeb Arian Ewropeaidd yn fater datganoledig. Mae'n gyfrifoldeb ar y Cynulliad i godi ymwybyddiaeth ymhlith busnesau Cymru o oblygiadau'r Ewro, p'un a yw'r DU yn ymuno ai peidio. Mae Grwp Tasglu Ewro Cymru yn datblygu'r gwaith hwn dan gadeiryddiaeth Peter Graham-Woollard. Byddai goblygiadau pwysig i Gymru yn sgil mabwysiadu'r Ewro ac mae'r Cynulliad yn cymryd camau i sicrhau bod Cymru'n barod pe bai gofyn iddi ddechrau defnyddio'r Ewro. |

**Datblygu Cynaliadwy**

| | |
|---|---|
| Disgrifiad | Gweithredu strategaeth datblygu cynaliadwy yr UE i anelu at dyfiant economaidd sefydlog a lefel gyflogaeth uwch, ynghyd â chydlyniad cymdeithasol a diogelwch amgylcheddol o fewn yr Undeb ac yn rhyngwladol. |
| Perthnasedd i'r Cynulliad Cenedlaethol | Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi parhau i sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn thema ganolog mewn polisïau strategol fel 'Cymru'n Ennill'.<br><br>O ran camau penodol o fewn Strategaeth yr UE yn ystod 2002, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn/neu efallai y bydd angen iddo:<br><br>• Parhau â'i ymdrechion i ddatblygu Offeryn Integreiddio, law yn llaw â gwaith yr UE ar Arfarniad Effaith gwell. Un thema arbennig yn y maes hwn yw iechyd, ac mae swyddogion y Cynulliad yn cydweithio â |

| | |
|---|---|
| | swyddogion y Comisiwn ar Asesiad o Effaith ar Iechyd.<br>• Cyfrannu, drwy Lywodraeth y DU, i'r adolygiad o'r Polisïau Cyffredin o ran Amaethyddiaeth a Physgodfeydd.<br>• Ystyried sut orau i fanteisio ar y Rhaglen Fframwaith newydd ar gyfer Datblygu Ymchwil a Thechnoleg.<br>• Gweithredu deddfwriaeth debyg i honno a allai ddeillio o'r 6ed Rhaglen Weithredu Amgylcheddol.<br>• Parhau i weithredu a monitro Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2000-2006.<br>• Parhau i ddatblygu a monitro'r sefyllfa parthed cydlyniad cymdeithasol ac economaidd. Ymatebodd Prif Weinidog Cymru i'r Ail Adroddiad ar Gydlyniad Cymdeithasol ac Economaidd ar 17 Rhagfyr 2001. Cyhoeddwyd adroddiad cynnydd y Comisiwn ddiwedd Ionawr a bydd y Pwyllgor yn ei ystyried fel mater ar wahân. |

**Llywodraethu**

| | |
|---|---|
| Disgrifiad | Hyrwyddo system lywodraethu Ewropeaidd newydd drwy weithredu ar argymhellion Papur Gwyn yr UE ar Lywodraethu unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn dod i ben ym mis Mawrth. Hefyd, hyrwyddo a hwyluso'r ddadl ar ddyfodol yr Undeb. |
| Perthnasedd i'r Cynulliad Cenedlaethol | Bu'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn ystyried Llywodraethu ers i'r peth ddatblygu'n flaenoriaeth i'r Comisiwn yn 2001. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y Papur Gwyn ar wahanol adegau a bu'n cynnal trafodaeth fanwl gyda'r Comisiwn ym Mrwsel ar 5 Rhagfyr. Noddodd Llywodraeth y Cynulliad ddadl yng nghyfarfod llawn 17 Ionawr a bydd Prif Weinidog Cymru yn ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn cyn diwedd Mawrth. |

**Ehangu**

| | |
|---|---|
| Disgrifiad | Sicrhau canlyniadau cadarn i'r trafodaethau ar ehangu'r UE erbyn diwedd 2002. |
| Perthnasedd i'r Cynulliad Cenedlaethol | Nid yw'r trafodaethau ar ehangu wedi'u datganoli. Mae'r goblygiadau i Gymru o gael UE ehangach yn cael eu hystyried drwy waith y Gweithgor Ehangu sy'n atebol i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. |

**Y Canoldir**

| | |
|---|---|
| Disgrifiad | Atgyfnerthu perthynas Ewrop â'i chymdogion agos yn ardal y Canoldir. Caiff y pwyslais ei roi ar gyflymu'r broses o negodi Cytundebau Cysylltu, datblygu cydweithredu a chyfnewid rhwng gwledydd y De, a chreu marchnad Ewro-Ganoldir yn raddol. |
| Perthnasedd i'r Cynulliad Cenedlaethol | Nid oes unrhyw gamau uniongyrchol yn gysylltiedig â rhaglen y Canoldir. |

**Cydweithredu i Ddatblygu**

| | |
|---|---|
| Disgrifiad | Pwysleisio'r ffocws ar iechyd ac addysg sydd i bolisïau cydweithredu datblygu'r UE, fel rhan o'r amcan cyffredinol o atal tlodi. |
| Perthnasedd i'r Cynulliad Cenedlaethol | Dim rhan uniongyrchol yng ngwaith y Comisiwn ar bolisïau cydweithredu datblygu. |

**Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol**
**Chwefror 2002**